Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2025 Rhif 432 (Cy. 83) (C. 17)

# ADDYSG, CYMRU

# Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Darfodol a Throsiannol) 2025

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ddarpariaethau yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ("y Ddeddf") ac yn gwneud darpariaeth ddarfodol a throsiannol mewn cysylltiad â dyfodiad darpariaethau penodol i rym.

Mae Rhan 1 (erthygl 1) yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad ag enwi a dehongli'r Gorchymyn hwn.

Mae Rhan 2 (erthyglau 2 i 8) yn dwyn i rym ddarpariaethau o'r Ddeddf ar 5 Ebrill 2025. Mae erthygl 2 yn dwyn darpariaethau penodol i rym yn llawn ac mae erthygl 3 yn dwyn eraill i rym at ddibenion penodedig. Mae erthyglau 4 a 5 yn dwyn darpariaethau i rym yn llawn yn ddarostyngedig i addasiadau dros dro ac mae erthyglau 6 a 7 yn dwyn darpariaethau i rym yn llawn yn ddarostyngedig i ddarpariaethau trosiannol. Mae erthygl 8 yn dwyn darpariaethau i rym at ddibenion penodedig yn ddarostyngedig i addasiadau dros dro.

Mae Rhan 3 (erthyglau 9 a 10) yn dwyn darpariaethau o'r Ddeddf i rym yn llawn ar 1 Ionawr 2026 a 31 Gorffennaf 2026. Mae erthygl 10 yn dwyn i rym adran 25(1) a (4) o'r Ddeddf ar 31 Gorffennaf 2026, i'r graddau nad yw'r darpariaethau hynny eisoes mewn grym. Mae adran 25(1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn sefydlu a chynnal cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol yng Nghymru.

Mae erthygl 2(a) yn dwyn i rym is-adrannau (2), (3), (5), (6) ac (8) i (11) o adran 25 o'r Ddeddf, y mae rhai ohonynt eisoes mewn grym at ddibenion penodol. Mae

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

erthygl 9 yn dwyn i rym adran 26 o'r Ddeddf, sy'n ymwneud â'r weithdrefn gofrestru, ar 1 Ionawr 2026. Mae erthygl 2(b) i (f) yn dwyn i rym adrannau 27 i 31 o'r Ddeddf, y mae rhai ohonynt eisoes mewn grym at ddibenion penodol.

I gofrestru gyda'r Comisiwn rhaid i geisydd (ymhlith pethau eraill) fod yn ddarparwr addysg drydyddol yng Nghymru (adran 25(4)(b) o'r Ddeddf). Diffinnir hyn yn adran 144(1) o'r Ddeddf fel sefydliad sy'n darparu addysg drydyddol, gan gynnwys addysg drydyddol a ddarperir ar ei ran, y cynhelir ei weithgareddau yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Mae adran 83 o'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddynodi darparwr addysg drydyddol yn sefydliad na fyddai, oni bai am y dynodiad, yn cael ei ystyried yn sefydliad at ddibenion y Ddeddf. Dygir adran 83 i rym i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan erthygl 2(ee).

Rhaid i geiswyr ar gyfer cofrestru fodloni amodau cofrestru cychwynnol (adran 27 o'r Ddeddf) ac mae cofrestriad parhaus darparwr yn amodol arno'n bodloni amodau cofrestru parhaus cyffredinol ac unrhyw amodau cofrestru parhaus penodol (adrannau 28 a 29 o'r Ddeddf). Mae rhwymedigaeth ar y Comisiwn i gadw amodau o'r fath o dan adolygiad (adran 30(2) o'r Ddeddf). Mae adran 31 o'r Ddeddf yn nodi amodau cofrestru parhaus mandadol sydd i'w gosod fel naill ai amodau cofrestru parhaus cyffredinol neu amodau cofrestru parhaus penodol.

Mae erthygl 2(g) yn dwyn i rym adran 32 o'r Ddeddf i'r graddau nad yw eisoes mewn grym. O dan adran 32, rhaid i ddarparwyr cofrestredig penodol fod yn ddarostyngedig i amod terfyn ffioedd. Rhaid i'r darparwyr hyn feddu ar ddatganiad terfyn ffioedd sydd wedi ei gymeradwyo o dan adran 47 o'r Ddeddf ac mae erthygl 2(s) yn dwyn yr adran honno i rym i'r graddau nad yw eisoes mewn grym. Mae erthygl 2(t) yn dwyn i rym adran 48 o'r Ddeddf, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddatganiadau terfyn ffioedd cymeradwy gael eu cyhoeddi.

Mae adran 33 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr cofrestredig fod yn ddarostyngedig i amodau cofrestru parhaus ar gyfle cyfartal. Mae adran 33 mewn grym at ddibenion penodedig ac mae erthygl 3(a) yn dwyn yr adran honno i rym at ddibenion ychwanegol.

Mae erthygl 2(h) yn dwyn i rym adran 35 o'r Ddeddf i'r graddau nad yw eisoes mewn grym. Mae'r adran honno'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gyhoeddi canllawiau ynghylch amodau cofrestru parhaus.

Mae erthygl 2(i) i (l) yn dwyn i rym adrannau 36 i 39 o'r Ddeddf. Mae adrannau 36 i 38 yn darparu i'r Comisiwn fonitro, darparu cyngor a chynhorthwy a

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

chynnal adolygiadau mewn perthynas â chydymffurfedd darparwyr cofrestredig ag amodau cofrestru parhaus. O dan adran 39, caiff y Comisiwn gyfarwyddo darparwr mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio ag amodau o'r fath. Mae adran 40 yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfarwyddydau a roddir o dan adran 39 ac fe'i dygir i rym gan erthygl 2(m). Mae erthygl 2(dd) yn dwyn i rym adran 82 o'r Ddeddf, sy'n darparu ar gyfer effaith cyfarwyddydau a roddir o dan Ran 2 o'r Ddeddf, a gorfodi cyfarwyddydau o'r fath.

Mae adran 41 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ddileu darparwr addysg drydyddol o gategori o'r gofrestr o dan amgylchiadau penodol, ac yn ei alluogi i wneud hynny. Mae erthygl 2(n) yn dwyn i rym adran 41 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym. Mae erthygl 2(o) a (p) yn dwyn i rym adrannau 42 a 43 o'r Ddeddf, yn y drefn honno, sy'n nodi'r weithdrefn ddatgofrestru ac yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â datgofrestru'n wirfoddol a datgofrestru gyda chydsyniad. Mae erthygl 2(q) yn dwyn i rym adran 44 o'r Ddeddf, sy'n galluogi'r Comisiwn i gofrestru darparwr mewn categori gwahanol o'r gofrestr os bodlonir amodau penodol.

Mae erthygl 2(r) yn dwyn i rym adran 45 o'r Ddeddf. Mae adran 45 yn galluogi darparwr i wneud cais am adolygiad gan yr adolygydd penderfyniadau (gweler adran 79 o'r Ddeddf) o benderfyniadau penodol gan y Comisiwn sy'n gysylltiedig â chofrestru.

Mae erthygl 8(1) yn dwyn i rym swyddogaethau ymyrryd y Comisiwn yn adrannau 51 i 53 o'r Ddeddf at ddibenion galluogi'r Comisiwn i gyhoeddi datganiad sy'n nodi sut y mae'n bwriadu arfer ei swyddogaethau ymyrryd, yn unol ag adran 81(1) o'r Ddeddf. Mae erthygl 8(5)(a) yn darparu ar gyfer addasiad dros dro i ddyletswydd y Comisiwn yn adran 51(b) i fonitro ansawdd addysg drydyddol ac i hybu gwelliant yn ansawdd yr addysg honno, fel nad yw'r ddyletswydd yn cynnwys addysg drydyddol a gyllidir gan y Comisiwn yn unol â'i bwerau o dan adran 65 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ("Deddf 1992"). Bydd yr addasiad hwn yn gymwys hyd nes y diddymir adran 65 o Ddeddf 1992 (erthygl 8(3)).

Mae erthygl 8(5)(b) hefyd yn darparu ar gyfer addasiad dros dro i ddyletswydd y Comisiwn yn adran 51(b) o'r Ddeddf fel nad yw'n cynnwys addysg drydyddol a ddarperir gan, neu ar ran, sefydliad rheoleiddiedig nad yw'n ddarparwr cofrestredig. Bydd yr addasiad hwn yn gymwys hyd nes y diddymir Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 ("Deddf 2015") yn llawn (erthygl 8(4)). Diffinnir y termau "sefydliad rheoleiddiedig" a "darparwr cofrestredig" yn erthygl 1(2).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae erthygl 8(6) yn darparu ar gyfer addasiadau dros dro i adrannau 52(1)(b) ac (c) a 53(b) ac (c) o'r Ddeddf. Mae'r addasiadau hynny yn eithrio addysg drydyddol a ddarperir gan, neu ar ran, sefydliadau rheoleiddiedig nad ydynt yn ddarparwyr cofrestredig rhag cwmpas pwerau'r Comisiwn i ddarparu cyngor a chynhorthwy mewn cysylltiad ag ansawdd addysg drydyddol a'i bwerau i gynnal adolygiadau sy'n berthnasol i ansawdd addysg drydyddol. Cymhwysir yr addasiadau oherwydd bydd sefydliadau rheoleiddiedig nad ydynt yn ddarparwyr cofrestredig yn parhau i gael eu rheoleiddio at ddibenion ansawdd o dan Ddeddf 2015. Bydd yr addasiadau yn gymwys hyd nes y diddymir Deddf 2015 yn llawn (erthygl 8(4)).

Mae adran 54 o'r Ddeddf yn rhoi swyddogaethau i'r Comisiwn sy'n ymwneud ag asesu addysg uwch a ddarperir gan, neu ar ran, ddarparwyr cofrestredig ac a ddarperir gan eraill. Mae adran 56 o'r Ddeddf, ac Atodlen 3 iddi, yn galluogi'r Comisiwn i ddynodi corff i arfer y swyddogaethau hynny ar ei ran.

Mae erthygl 8(2) yn dwyn i rym adran 54 o'r Ddeddf at ddibenion galluogi'r Comisiwn i ddynodi corff o dan Atodlen 3. Mae erthygl 8(7) yn gwneud addasiadau dros dro i adran 54(3) fel ei bod yn cael effaith fel pe na bai pŵer asesu'r Comisiwn yn cynnwys addysg uwch a ddarperir yng Nghymru gan, neu ar ran, sefydliad rheoleiddiedig nad yw'n ddarparwr cofrestredig. Bydd addysg uwch o'r fath yn parhau i gael ei rheoleiddio at ddibenion ansawdd o dan Ddeddf 2015. Bydd yr addasiadau yn gymwys hyd nes y diddymir Deddf 2015 yn llawn (erthygl 8(4)).

Mae erthyglau 2(u) a 5 yn dwyn i rym adran 56 o'r Ddeddf, a Rhan 1 o Atodlen 3 iddi, yn y drefn honno. Mae erthygl 5(2) i (4) yn addasu paragraffau 1 i 3 o Atodlen 3 fel bod cyfeiriadau at ddarparwr (neu ddarparwyr) cofrestredig sy'n darparu addysg uwch yn cael effaith fel pe baent yn gyfeiriadau at sefydliad (neu sefydliadau) rheoleiddiedig. Yn ystod y cyfnod pan fydd yr addasiadau hyn yn gymwys, ni fydd darparwyr cofrestredig.

Mae Rhan 2 o Atodlen 3 i'r Ddeddf yn darparu ar gyfer goruchwyliaeth o'r corff dynodedig gan y Comisiwn. Mae erthygl 3(c) yn dwyn i rym baragraff 6 o Atodlen 3 at ddibenion galluogi'r Comisiwn i baratoi trefniadau o dan y paragraff hwnnw.

Mae erthygl 2(v) yn dwyn i rym adran 73 o'r Ddeddf, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu penodol gydweithredu â'r Comisiwn neu â phersonau sy'n arfer ei swyddogaethau yn adrannau 51, 53 a 54(1) o'r Ddeddf (gan gynnwys at ddiben arfer unrhyw bŵer o dan adran 74 o'r Ddeddf). Mae adran 74 yn darparu i bersonau gael eu hawdurdodi gan y Comisiwn at ddibenion mynd i mewn ac arolygu mewn perthynas â swyddogaethau penodol o blith

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

swyddogaethau ymyrryd y Comisiwn a swyddogaethau'r Comisiwn o dan adran 54(1) o'r Ddeddf. Dygir adran 74 o'r Ddeddf i rym gan erthygl 2(w).

Mae erthygl 2(x) i (bb) yn dwyn i rym adrannau 75 i 79 o'r Ddeddf. Mae adrannau 76 i 78 yn gymwys i hysbysiadau a chyfarwyddydau sy'n dod o fewn adran 75. O dan adran 76, rhaid i'r Comisiwn roi hysbysiad rhybuddio i ddarparwr cyn rhoi hysbysiad neu gyfarwyddyd o'r fath i'r darparwr. Mae adran 77 yn rhagnodi'r wybodaeth sydd i'w rhoi gyda hysbysiadau neu gyfarwyddydau sy'n dod o fewn adran 75 a'u heffaith tra bo adolygiad yn yr arfaeth. O dan adran 78, caiff darparwr sy'n cael hysbysiad neu gyfarwyddyd o'r fath wneud cais am adolygiad o'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd hwnnw. Mae adran 79 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benodi person neu banel o bersonau i adolygu penderfyniadau o dan adrannau 45 a 78 ac mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn cysylltiad ag adolygiadau o'r fath.

Mae erthygl 2(cc) yn dwyn i rym adran 81(1), (2), (3)(b) a (4) o'r Ddeddf, sy'n ymwneud â datganiad y Comisiwn ar swyddogaethau ymyrryd. Mae adran 81(1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gyhoeddi datganiad sy'n nodi sut y mae'n bwriadu arfer ei swyddogaethau ymyrryd yn adrannau 36 i 39, 41, 51 i 53 a 73(4) o'r Ddeddf. Cyn cyhoeddi'r datganiad, neu ddatganiad diwygiedig, rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â'r personau a nodir yn adran 81(3). Mae erthygl 4 yn dwyn i rym adran 81(3)(a) yn ddarostyngedig i addasiad dros dro, sef bod rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â phob sefydliad rheoleiddiedig (yn lle pob darparwr cofrestredig). Cymhwysir yr addasiad hwn tan 31 Gorffennaf 2026 gan na fydd darparwyr cofrestredig tan hynny.

Mae erthygl 2(ff) yn dwyn i rym adran 84 o'r Ddeddf i'r graddau nad yw eisoes mewn grym. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer dehongli Rhan 2 o'r Ddeddf.

Mae adran 87(1) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gyhoeddi datganiad o'i bolisi ar sut y mae'n bwriadu arfer ei bwerau cyllido. Mae erthygl 2(gg) yn dwyn i rym adran 87(1), (3) a (4) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym. Mae erthygl 3(b) yn dwyn i rym adran 87(5), i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, ac eithrio mewn perthynas ag adrannau 88, 89 a 105 o'r Ddeddf.

Mae erthygl 2(ii) a (jj) yn dwyn i rym adrannau 126 a 129 o'r Ddeddf, yn y drefn honno, sy'n darparu ar gyfer cynlluniau diogelu dysgwyr ac sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gyhoeddi cod ymgysylltu â dysgwyr. Mae adran 101(3) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir sydd

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

â chweched dosbarth yng Nghymru gydymffurfio â gofynion y cod ymgysylltu â dysgwyr, a chaiff yr adran ei dwyn i rym gan erthygl 2(hh) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym. Mae erthygl 2(kk) yn dwyn i rym baragraff 16(1)(g) ac (h) o Atodlen 1 i'r Ddeddf, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd cynlluniau diogelu dysgwyr a'r cod ymgysylltu â dysgwyr yn ei adroddiad blynyddol.

Mae erthygl 2(ll) yn dwyn i rym baragraffau 8(8), 11 a 29(1) i (4), (6) i (8) a (10) i (13) o Atodlen 4 i'r Ddeddf. Mae paragraff 29 o Atodlen 4 i'r Ddeddf yn darparu ar gyfer gwneud diwygiadau i Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("Deddf 2013") mewn perthynas ag ad-drefnu ysgolion. Mae'r diwygiadau hyn yn cynnwys dileu pwerau Gweinidogion Cymru i wneud cynigion i ailstrwythuro addysg chweched dosbarth a gynhelir gan awdurdodau lleol, gan roi pwerau yn lle hynny i'r Comisiwn i ailstrwythuro addysg chweched dosbarth. Mae paragraffau 8(8) ac 11 yn gwneud diwygiadau sy'n ganlyniadol ar y diwygiadau a wneir gan baragraff 29.

Mae erthygl 6(1) yn dwyn i rym baragraff 29(5) o Atodlen 4 i'r Ddeddf yn ddarostyngedig i ddarpariaeth drosiannol. Mae paragraff 29(5) yn diwygio adran 50(1) o Ddeddf 2013 i ddileu'r gofyniad awtomatig i Weinidogion Cymru gymeradwyo cynigion trefniadaeth ysgolion sy'n effeithio ar addysg chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir, gan ei gwneud yn ofynnol, yn lle hynny, gael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru dim ond pan fo gwrthwynebiad i'r cynigion wedi ei anfon, yn ysgrifenedig, at y cynigydd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu (28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod y cyhoeddwyd y cynigion) a phan na fo wedi ei dynnu yn ôl yn ysgrifenedig o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl diwedd y cyfnod gwrthwynebu. Mae'r ddarpariaeth drosiannol a nodir yn erthygl 6(2) yn darparu ei bod yn ofynnol cael cydsyniad Gweinidogion Cymru o hyd mewn perthynas ag unrhyw gynigion a gyhoeddwyd o dan adran 48 o Ddeddf 2013 cyn 5 Ebrill 2025.

Mae erthygl 7 yn dwyn i rym baragraff 29(9) o Atodlen 4 i'r Ddeddf, sy'n diwygio adran 80(3) o Ddeddf 2013, yn ddarostyngedig i ddarpariaeth drosiannol. Mae adran 80 o Ddeddf 2013 yn galluogi corff llywodraethu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol i derfynu ysgol drwy gyflwyno i Weinidogion Cymru a'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol hysbysiad sy'n rhoi dwy flynedd o rybudd o'i fwriad i wneud hynny. Mae adran 80(3) yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn cyflwyno hysbysiad o'r fath os byddai terfynu'r ysgol yn effeithio ar y cyfleusterau ar gyfer addysg chweched dosbarth lawnamser. Mae'r diwygiad a wneir gan baragraff 29(9) o Atodlen 4 yn

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

dileu'r gofyniad i ymgynghori â Gweinidogion Cymru, ac yn ei le mae'n mewnosod gofyniad i ymgynghori â'r Comisiwn cyn cyflwyno hysbysiad o'r fath. Mae'r ddarpariaeth drosiannol yn erthygl 7(2) yn darparu bod y ddyletswydd i ymgynghori â Gweinidogion Cymru yn parhau mewn perthynas ag unrhyw ymgynghoriad a gychwynnwyd o dan adran 80(3) o Ddeddf 2013 cyn 5 Ebrill 2025.

Mae Rhan 4 (erthyglau 11 i 18) yn gwneud darpariaeth ddarfodol a throsiannol mewn cysylltiad â Deddf 2015 a'r system gofrestru sydd i'w sefydlu o dan Ran 2 o'r Ddeddf. Bydd darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru sy'n cofrestru gyda'r Comisiwn ac sy'n sefydliadau rheoleiddiedig yn peidio â chael eu rheoleiddio o dan Ddeddf 2015 at ddibenion ansawdd addysg (Rhan 3 o Ddeddf 2015) a materion ariannol (Rhan 4 o Ddeddf 2015) ond byddant yn parhau i gael eu rheoleiddio o dan Ddeddf 2015 at ddibenion ffioedd a chyfle cyfartal mewn cysylltiad â mynediad i addysg uwch hyd nes y diddymir Deddf 2015.

Mae erthygl 11 yn gwneud addasiadau darfodol i adran 1(4) a (5) o Ddeddf 2015, sy'n rhoi trosolwg o Rannau 3 a 4 o'r Ddeddf honno, fel bod sefydliadau rheoleiddiedig sy'n ddarparwyr cofrestredig yn cael eu heithrio o'r cyfeiriadau at sefydliadau sydd â chynllun ffioedd a mynediad.

Mae erthyglau 12 i 18 yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn perthynas â Deddf 2015.

O dan erthygl 12, nid yw Rhannau 3 a 4 o Ddeddf 2015 a darpariaethau cysylltiedig yn Rhannau 5 a 6 o'r Ddeddf honno yn gymwys mewn perthynas â sefydliad rheoleiddiedig ar ôl iddo ddod yn ddarparwr cofrestredig.

Mae erthygl 13 yn gymwys pan fo'r Comisiwn wedi rhoi i sefydliad rheoleiddiedig hysbysiad rhybuddio o dan adran 42 o Ddeddf 2015 sy'n ymwneud ag ansawdd addysg neu faterion ariannol y sefydliad a phan fo'r sefydliad yn dod yn ddarparwr cofrestredig. Ni chaiff y Comisiwn, er gwaethaf yr hysbysiad rhybuddio, roi cyfarwyddyd na hysbysiad i'r sefydliad hwnnw mewn perthynas ag ansawdd ei addysg na'i faterion ariannol.

Mae erthyglau 14 a 15 yn gymwys i gyfarwyddyd neu hysbysiad, nad yw mewn grym, a roddir gan y Comisiwn o dan Ddeddf 2015 i sefydliad rheoleiddiedig sy'n dod yn ddarparwr cofrestredig. Ar ôl i'r sefydliad rheoleiddiedig ddod yn ddarparwr cofrestredig, mae'r cyfarwyddyd neu'r hysbysiad yn cael ei drin fel pe bai wedi ei ddirymu neu ei dynnu'n ôl, yn y drefn honno, os yw'n ymwneud ag ansawdd addysg neu faterion ariannol y sefydliad.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae erthygl 16 yn cadarnhau nad yw dim yn Rhan 4 o'r Gorchymyn hwn yn effeithio ar gymhwysiad hysbysiadau penodol a roddir o dan adran 37 neu 39 o Ddeddf 2015 sydd mewn effaith mewn perthynas â sefydliad yn union cyn i'r sefydliad hwnnw ddod yn ddarparwr cofrestredig.

Mae erthygl 17 yn darparu nad yw cyfarwyddyd sydd mewn grym ac sy'n ymwneud ag ansawdd addysg neu faterion ariannol sefydliad rheoleiddiedig yn gymwys ar ôl i'r sefydliad y rhoddwyd y cyfarwyddyd iddo ddod yn ddarparwr cofrestredig.

Mae erthygl 18 yn darparu nad yw datganiad a gyhoeddir gan y Comisiwn o dan adran 52 o Ddeddf 2015 yn gymwys mewn perthynas â sefydliad rheoleiddiedig ar ôl i'r sefydliad hwnnw ddod yn ddarparwr cofrestredig, i'r graddau y mae'r datganiad yn ymwneud ag ansawdd addysg a materion ariannol.

## NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym drwy orchymyn cychwyn cyn dyddiad y Gorchymyn hwn.

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 1 | 15 Rhagfyr 2022 | O.S. 2022/1318 (Cy. 267) (C. 106) |
| Adran 2 (yn rhannol) | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 2 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) | 1 Ebrill 2024 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 3 (yn rhannol) | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 3 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) | 1 Ebrill 2024 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 4 (yn rhannol) | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 4 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) | 1 Ebrill 2024 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 5 (yn rhannol) | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | | |
|---|---|---|
| Adran 5 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) | 1 Ebrill 2024 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 6 (yn rhannol) | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 6 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) | 1 Awst 2024 | O.S. 2024/806 (Cy. 130) (C. 51) |
| Adran 7 (yn rhannol) | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 7 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) | 1 Ebrill 2024 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 8 (yn rhannol) | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 8 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) | 1 Ebrill 2024 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 9 (yn rhannol) | 15 Rhagfyr 2022 | O.S. 2022/1318 (Cy. 267) (C. 106) |
| Adran 9 (yn rhannol) | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 9 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) | 1 Ebrill 2024 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 10 (yn rhannol) | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 10 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) | 1 Ebrill 2024 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 11 (yn rhannol) | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 11 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) | 1 Ebrill 2024 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 12 (yn rhannol) | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 12 (i'r graddau nad yw eisoes mewn | 1 Ebrill 2024 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | | |
|---|---|---|
| grym) | | |
| Adran 13 | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 14 | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 15 | 1 Ebrill 2024 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 16 | 1 Ebrill 2024 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 17 | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 18 | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 19 | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 20 | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 21 | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 22 | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 23 | 1 Awst 2024 | O.S. 2024/806 (Cy. 130) (C. 51) |
| Adran 24 | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 25 (yn rhannol) | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 27 (yn rhannol) | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 28 (yn rhannol) | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 30 (yn rhannol) | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 31 (yn rhannol) | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 32 (yn rhannol) | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | | |
|---|---|---|
| Adran 33 (yn rhannol) | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 34 | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 35 (yn rhannol) | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 36 (yn rhannol) | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 41 (yn rhannol) | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 43 (yn rhannol) | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 46 | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 47 (yn rhannol) | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 50 (yn rhannol) | 1 Awst 2024 | O.S. 2024/806 (Cy. 130) (C. 51) |
| Adran 54 (yn rhannol) | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 57 (yn rhannol) | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 63 (yn rhannol) | 1 Tachwedd 2023 | O.S. 2023/1106 (Cy. 191) (C. 71) |
| Adran 83 (yn rhannol) | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 84 (yn rhannol) | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 85 (yn rhannol) | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 85 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) | 1 Ebrill 2024 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 86 | 1 Awst 2024 | O.S. 2024/806 (Cy. 130) (C. 51) |
| Adran 87 (yn rhannol) | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | | |
|---|---|---|
| Adran 88 (yn rhannol) | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 89 (yn rhannol) | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 94 (yn rhannol) | 1 Ebrill 2024 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 97 (yn rhannol) | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 101 (yn rhannol) | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 103 (yn rhannol) | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 104 (yn rhannol) | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 105 (yn rhannol) | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 130 | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 131 (yn rhannol) | 1 Awst 2024 | O.S. 2024/806 (Cy. 130) (C. 51) |
| Adran 132 (yn rhannol) | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 135 | 1 Awst 2024 | O.S. 2024/806 (Cy. 130) (C. 51) |
| Adran 136 | 1 Awst 2024 | O.S. 2024/806 (Cy. 130) (C. 51) |
| Adran 139 (yn rhannol) | 1 Awst 2024 | O.S. 2024/806 (Cy. 130) (C. 51) |
| Adran 140 | 1 Awst 2024 | O.S. 2024/806 (Cy. 130) (C. 51) |
| Adran 141 | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 142 | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Adran 147 | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Atodlen 1, | 15 Rhagfyr | O.S. 2022/1318 |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | | |
|---|---|---|
| paragraffau 1 i 3; 4 (yn rhannol); 5 (yn rhannol); 7 (yn rhannol); 10 (yn rhannol); 11 (yn rhannol); 12 | 2022 | (Cy. 267) (C. 106) |
| Atodlen 1, paragraffau 5 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym); 7 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym); 8 (yn rhannol); 9 (yn rhannol); 10 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym); 11(1) (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym); 11 (yn rhannol); 13; 14; 15 (yn rhannol); 18 i 22 | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Atodlen 1, paragraffau 4 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym); 6; 8 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym); 9 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym); 11 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym); 15 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) | 1 Awst 2024 | O.S. 2024/806 (Cy. 130) (C. 51) |
| Atodlen 1, paragraffau 16 (yn rhannol); 17 (yn rhannol) | 1 Ebrill 2025 | O.S. 2024/806 (Cy. 130) (C. 51) |
| Atodlen 2 | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Atodlen 4, paragraffau 20(1), (2)(a); 28(a) | 4 Medi 2023 | O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52) |
| Atodlen 4, paragraffau 2; 3 | 1 Awst 2024 | O.S. 2024/806 (Cy. 130) (C. |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | | |
|---|---|---|
| (yn rhannol); 5; 6 (yn rhannol); 7 (yn rhannol); 8 (yn rhannol); 12 (i’r graddau nad yw eisoes mewn grym); 14 (yn rhannol); 15 (yn rhannol); 18 (yn rhannol); 19 (yn rhannol); 20 (yn rhannol); 22 (yn rhannol); 25 (yn rhannol); 27; 28 (i’r graddau nad yw eisoes mewn grym); 31 (yn rhannol); 32; 33 (yn rhannol); 34; 36; 37; 38 (yn rhannol); 40; 41 | | 51) |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif 432 (Cy. 83) (C. 17)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Darfodol a Throsiannol) 2025

*Gwnaed* *2 Ebrill 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 148(2) a (3) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

## RHAN 1

### CYFLWYNIAD

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Darfodol a Throsiannol) 2025.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y Comisiwn" ("*the Commission*") yw'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a sefydlwyd gan adran 1 o'r Ddeddf;

mae i "corff llywodraethu" ("*governing body*") yr ystyr a roddir gan adran 57(1) o Ddeddf 2015;

mae i "darparwr cofrestredig" ("*registered provider*") yr ystyr a roddir gan adran 144(1) o'r Ddeddf;

(**1**) 2022 dsc 1.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ystyr "Deddf 2013" ("*the 2013 Act*") yw Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013(**1**);

ystyr "Deddf 2015" ("*the 2015 Act*") yw Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015(**2**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022;

ystyr "Rheoliadau 2015" ("*the 2015 Regulations*") yw Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau a Chyfarwyddydau) (Cymru) 2015(**3**);

mae i "sefydliad rheoleiddiedig" ("*regulated institution*") yr ystyr a roddir gan adran 7(5)(b) o Ddeddf 2015.

## RHAN 2

## Y DARPARIAETHAU SY'N DOD I RYM AR 5 EBRILL 2025

### Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 5 Ebrill 2025

**2.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 5 Ebrill 2025—

(a) adran 25(2), (3), (5), (6) ac (8) i (11) (y gofrestr) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(b) adran 27 (amodau cofrestru cychwynnol) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(c) adran 28 (amodau cofrestru parhaus cyffredinol) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(d) adran 29 (amodau cofrestru parhaus penodol);

(e) adran 30 (amodau cymesur etc.) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(f) adran 31 (amodau cofrestru parhaus mandadol ar gyfer pob darparwr cofrestredig) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(g) adran 32 (amod cofrestru parhaus mandadol ar y terfynau ffioedd) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(h) adran 35 (dyletswydd y Comisiwn i roi canllawiau ynghylch amodau cofrestru parhaus) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(**1**) 2013 dccc 1.
(**2**) 2015 dccc 1.
(**3**) O.S. 2015/1485 (Cy. 164).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(i) adran 36 (dyletswydd y Comisiwn i fonitro cydymffurfedd ag amodau cofrestru parhaus) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(j) adran 37 (cyngor a chynhorthwy mewn cysylltiad â chydymffurfedd ag amodau cofrestru parhaus);

(k) adran 38 (adolygiadau sy'n berthnasol i gydymffurfedd ag amodau cofrestru parhaus);

(l) adran 39 (cyfarwyddydau mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio ag amodau cofrestru parhaus);

(m) adran 40 (darpariaeth atodol ynghylch cyfarwyddydau o dan adran 39);

(n) adran 41 (datgofrestru) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(o) adran 42 (datgofrestru: y weithdrefn);

(p) adran 43 (datgofrestru'n wirfoddol a datgofrestru gyda chydsyniad) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(q) adran 44 (newid categori cofrestru heb gais);

(r) adran 45 (adolygiadau o benderfyniadau cofrestru);

(s) adran 47 (cymeradwyo datganiad terfyn ffioedd) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(t) adran 48 (cyhoeddi datganiad terfyn ffioedd cymeradwy);

(u) adran 56 (arfer swyddogaethau asesu addysg uwch gan gorff dynodedig);

(v) adran 73 (dyletswydd i gydweithredu);

(w) adran 74 (pwerau mynd i mewn ac arolygu);

(x) adran 75 (cymhwyso adrannau 76 i 78);

(y) adran 76 (hysbysiadau a chyfarwyddydau arfaethedig: gofyniad i roi hysbysiad rhybuddio);

(z) adran 77 (yr wybodaeth sydd i'w rhoi gyda hysbysiadau a chyfarwyddydau a'r effaith tra bo adolygiad yn yr arfaeth);

(aa) adran 78 (adolygu hysbysiadau a chyfarwyddydau);

(bb) adran 79 (adolygydd penderfyniadau);

(cc) adran 81(1), (2), (3)(b) a (4) (datganiad y Comisiwn ar swyddogaethau ymyrryd);

(dd) adran 82 (effaith cyfarwyddydau a'u gorfodi);

(ee) adran 83 (dynodi darparwyr addysg drydyddol eraill) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(ff) adran 84 (dehongli Rhan 2) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(gg) adran 87(1), (3) a (4) (polisi ar bwerau cyllido) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(hh) adran 101(3) (y chweched dosbarth mewn ysgolion) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(ii) adran 126 (cynlluniau diogelu dysgwyr);

(jj) adran 129 (y cod ymgysylltu â dysgwyr);

(kk) yn Atodlen 1 (y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil)—

(i) paragraff 16(1)(g);

(ii) paragraff 16(1)(h);

(ll) yn Atodlen 4 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol)—

(i) paragraff 8(8);

(ii) paragraff 11;

(iii) paragraff 29(1) i (4), (6) i (8) a (10) i (13).

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 5 Ebrill 2025 i'r graddau a bennir**

**3.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 5 Ebrill 2025 i'r graddau a bennir mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath—

(a) adran 33 (amodau cofrestru parhaus mandadol ar gyfle cyfartal), at ddibenion galluogi'r Comisiwn—

(i) i ymgynghori o dan adran 28(7) o'r Ddeddf mewn perthynas ag unrhyw amodau cofrestru parhaus cyffredinol ar gyfle cyfartal;

(ii) i baratoi ar gyfer amodau cofrestru parhaus ar gyfle cyfartal y gellir eu gosod fel amodau cofrestru parhaus penodol o dan adran 29 o'r Ddeddf;

(b) adran 87(5) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, ac eithrio mewn perthynas ag adrannau 88 (cymorth ariannol i ddarparwyr penodedig ar gyfer addysg uwch), 89 (cymorth ariannol ar gyfer cyrsiau addysg uwch a bennir mewn rheoliadau) a 105 (cymorth ariannol ar gyfer ymchwil ac arloesi) o'r Ddeddf;

(c) paragraff 6 (goruchwyliaeth gan y Comisiwn) o Atodlen 3 (asesu addysg uwch: corff dynodedig), at ddibenion galluogi'r Comisiwn i baratoi trefniadau o dan y paragraff hwnnw.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 5 Ebrill 2025 yn ddarostyngedig i ddarpariaethau darfodol**

**4.**—(1) Daw adran 81(3)(a) o'r Ddeddf i rym ar 5 Ebrill 2025 yn ddarostyngedig i'r addasiad a nodir ym mharagraff (2), sy'n gymwys yn ystod y cyfnod sy'n dechrau â 5 Ebrill 2025 ac sy'n dod i ben â 31 Gorffennaf 2026.

(2) Mae adran 81(3)(a) yn cael effaith fel pe bai'r cyfeiriad at ddarparwr cofrestredig yn gyfeiriad at sefydliad rheoleiddiedig.

**5.**—(1) Daw Rhan 1 (dynodiad) o Atodlen 3 i'r Ddeddf i rym ar 5 Ebrill 2025 yn ddarostyngedig i'r addasiadau a nodir ym mharagraffau (2) i (4), sy'n gymwys yn ystod y cyfnod sy'n dechrau â 5 Ebrill 2025 ac sy'n dod i ben â 31 Gorffennaf 2026.

(2) Mae paragraff 1(3)(b)(i) o Atodlen 3 yn cael effaith fel pe bai'r cyfeiriad at ddarparwr cofrestredig sy'n darparu addysg uwch yn gyfeiriad at sefydliad rheoleiddiedig.

(3) Mae paragraff 2(2)(b) ac (c) o Atodlen 3 yn cael effaith fel pe bai'r ddau gyfeiriad at ddarparwyr cofrestredig sy'n darparu addysg uwch yn gyfeiriadau at sefydliadau rheoleiddiedig.

(4) Mae paragraff 3(4)(b)(i) o Atodlen 3 yn cael effaith fel pe bai'r cyfeiriad at ddarparwr cofrestredig sy'n darparu addysg uwch yn gyfeiriad at sefydliad rheoleiddiedig.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 5 Ebrill 2025 yn ddarostyngedig i ddarpariaethau trosiannol**

**6.**—(1) Daw paragraff 29(5) o Atodlen 4 i'r Ddeddf i rym ar 5 Ebrill 2025 yn ddarostyngedig i'r ddarpariaeth drosiannol a nodir ym mharagraff (2).

(2) Mae adran 50(1) (eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru) o Ddeddf 2013 yn parhau i fod yn gymwys ar ac ar ôl 5 Ebrill 2025 fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn y dyddiad hwnnw mewn perthynas â chynigion a gyhoeddwyd o dan adran 48 (cyhoeddi ac ymgynghori) o'r Ddeddf honno cyn 5 Ebrill 2025.

**7.**—(1) Daw paragraff 29(9) o Atodlen 4 i'r Ddeddf i rym ar 5 Ebrill 2025 yn ddarostyngedig i'r ddarpariaeth drosiannol a nodir ym mharagraff (2).

(2) Mae adran 80(3) (hysbysiad gan gorff llywodraethu am derfynu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol) o Ddeddf 2013 yn parhau i fod yn gymwys ar ac ar ôl 5 Ebrill 2025 fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn y dyddiad hwnnw mewn perthynas ag ymgynghoriadau a gychwynnwyd o dan adran 80(3) o'r Ddeddf honno cyn 5 Ebrill 2025.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 5 Ebrill 2025 i'r graddau a bennir ac yn ddarostyngedig i ddarpariaethau darfodol**

**8.**—(1) Daw adrannau 51 (dyletswydd i fonitro ansawdd addysg drydyddol reoleiddiedig ac i hybu gwelliant yn ansawdd yr addysg honno) i 53 (adolygiadau sy'n berthnasol i ansawdd addysg drydyddol) o'r Ddeddf i rym ar 5 Ebrill 2025 at ddibenion galluogi'r Comisiwn i gyhoeddi datganiad sy'n nodi sut y mae'n bwriadu arfer ei swyddogaethau ymyrryd, yn unol ag adran 81(1) o'r Ddeddf, yn ddarostyngedig i'r addasiadau ym mharagraffau (5) a (6).

(2) Daw adran 54 (asesu ansawdd addysg uwch) o'r Ddeddf i rym ar 5 Ebrill 2025 at ddibenion galluogi'r Comisiwn i ddynodi corff o dan Atodlen 3 i'r Ddeddf, yn ddarostyngedig i'r addasiad ym mharagraff (7).

(3) Mae'r addasiad, i'r Ddeddf, sydd wedi ei nodi ym mharagraff (5)(a), yn gymwys yn ystod y cyfnod sy'n dechrau â 5 Ebrill 2025 ac sy'n dod i ben yn union cyn i baragraff 6(3)(c) o Atodlen 4 i'r Ddeddf ddod i rym.

(4) Mae'r addasiadau i'r Ddeddf sydd wedi eu nodi ym mharagraffau (5)(b), (6) a (7) yn gymwys yn ystod y cyfnod sy'n dechrau â 5 Ebrill 2025 ac sy'n dod i ben yn union cyn i baragraff 31 o Atodlen 4 i'r Ddeddf ddod i rym yn llawn.

(5) Mae adran 51(b) o'r Ddeddf yn cael effaith fel pe na bai'r cyfeiriad at addysg drydyddol a gyllidir gan y Comisiwn neu a sicrheir fel arall ganddo yn cynnwys addysg drydyddol—

(a) a gyllidir gan y Comisiwn yn unol â'i bwerau yn adran 65 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**1**);

(b) a ddarperir gan, neu ar ran, sefydliad rheoleiddiedig nad yw'n ddarparwr cofrestredig.

(6) Mae adrannau 52(1)(b) ac (c) (cyngor a chynhorthwy mewn cysylltiad ag ansawdd addysg drydyddol) a 53(b) ac (c) o'r Ddeddf yn cael effaith fel pe na bai'r cyfeiriadau at addysg drydyddol, neu gwrs penodol o addysg drydyddol, yn cynnwys addysg drydyddol, neu gwrs penodol o addysg drydyddol, a ddarperir gan, neu ar ran, sefydliad rheoleiddiedig nad yw'n ddarparwr cofrestredig.

(7) Mae adran 54(3) o'r Ddeddf yn cael effaith fel pe na bai pŵer y Comisiwn i asesu, neu wneud trefniadau ar gyfer asesu, ansawdd addysg uwch a ddarperir yng Nghymru gan unrhyw ddarparwr addysg drydyddol, yn cynnwys addysg uwch a ddarperir yng Nghymru gan,

(**1**) 1992 p. 13.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

neu ar ran, sefydliad rheoleiddiedig nad yw'n ddarparwr cofrestredig.

(8) Yn yr erthygl hon, mae i "addysg drydyddol" ac "addysg uwch" yr ystyron a roddir gan adran 144(1) o'r Ddeddf.

## RHAN 3

## Y DARPARIAETHAU SY'N DOD I RYM AR 1 IONAWR 2026 A 31 GORFFENNAF 2026

**9.** Daw adran 26 (y weithdrefn gofrestru) i rym ar 1 Ionawr 2026.

**10.** Daw adran 25(1) a (4) i rym ar 31 Gorffennaf 2026 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym.

## RHAN 4

## Y DARPARIAETHAU DARFODOL A THROSIANNOL SY'N YMWNEUD Â DEDDF 2015

### Y ddarpariaeth ddarfodol sy'n ymwneud ag adran 1 o Ddeddf 2015

**11.**—(1) Mae'r addasiadau i adran 1 o Ddeddf 2015 sydd wedi eu nodi ym mharagraff (2) yn gymwys yn ystod y cyfnod sy'n dechrau â 31 Gorffennaf 2026 ac sy'n dod i ben yn union cyn i baragraff 31 o Atodlen 4 i'r Ddeddf ddod i rym yn llawn.

(2) Mae adran 1(4) a (5) yn cael effaith fel pe bai'r ddau gyfeiriad at sefydliadau sydd â chynllun ffioedd a mynediad yn gyfeiriadau at sefydliadau sydd â chynllun ffioedd a mynediad ac eithrio sefydliadau sydd hefyd yn ddarparwyr cofrestredig.

### Datgymhwyso darpariaethau penodol yn Neddf 2015

**12.**—(1) Nid yw'r darpariaethau yn Neddf 2015 o fewn paragraff (2) yn gymwys mewn perthynas â sefydliad rheoleiddiedig ar ôl iddo ddod yn ddarparwr cofrestredig.

(2) Y darpariaethau yw—

(a) Rhan 3 (ansawdd yr addysg);

(b) Rhan 4 (materion ariannol sefydliadau rheoleiddiedig);

(c) adran 37(3)(d) ac (e) (hysbysiad ynghylch gwrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd);

(d) adran 39(2)(c) a (d) (pŵer i dynnu cymeradwyaeth yn ôl);

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(e) adran 52(5)(c) i (f) (datganiad mewn cysylltiad â swyddogaethau ymyrryd);

(f) adran 52(5)(g) i'r graddau y mae'n ymwneud ag adran 37(3)(d) ac (e);

(g) adran 52(5)(h) i'r graddau y mae'n ymwneud ag adran 39(2)(c) a (d).

(3) Ym mharagraff (1), mae sefydliad rheoleiddiedig yn cynnwys sefydliad sy'n cael ei drin fel sefydliad rheoleiddiedig yn rhinwedd adran 26 (cymhwyso'r Rhan hon pan fo sefydliad yn peidio â chael cynllun a gymeradwywyd) o Ddeddf 2015.

**Hysbysiadau rhybuddio o dan Ddeddf 2015**

**13.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys pan fo'r Comisiwn wedi rhoi i sefydliad rheoleiddiedig hysbysiad rhybuddio o fewn paragraff (3) a phan fo'r sefydliad yn dod yn ddarparwr cofrestredig.

(2) Er gwaethaf yr hysbysiad rhybuddio, ar ôl i'r sefydliad rheoleiddiedig ddod yn ddarparwr cofrestredig, ni chaiff y Comisiwn roi cyfarwyddyd na hysbysiad iddo o dan y darpariaethau a grybwyllir ym mharagraff (3).

(3) Mae hysbysiad rhybuddio o fewn y paragraff hwn os yw'n cael ei roi o dan adran 42 (hysbysiadau a chyfarwyddydau arfaethedig: gofyniad i roi hysbysiad rhybuddio) o Ddeddf 2015 ac mae'n ymwneud â'r canlynol—

(a) cyfarwyddyd arfaethedig o dan—

(i) adran 19 (cyfarwyddydau mewn cysylltiad ag ansawdd annigonol) o'r Ddeddf honno;

(ii) adran 33 (cyfarwyddydau mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â'r Cod) o'r Ddeddf honno;

(b) hysbysiad arfaethedig o dan—

(i) adran 37(1) o'r Ddeddf honno mewn cysylltiad â'r amod yn adran 37(3)(d) neu (e) o'r Ddeddf honno;

(ii) adran 39(1) o'r Ddeddf honno mewn cysylltiad â'r amod yn adran 39(2)(c) neu (d) o'r Ddeddf honno.

**Cyfarwyddydau o dan Ddeddf 2015 nad ydynt mewn grym**

**14.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i gyfarwyddyd a roddir gan y Comisiwn i sefydliad rheoleiddiedig sy'n dod yn ddarparwr cofrestredig.

(2) Ar ôl i'r sefydliad rheoleiddiedig ddod yn ddarparwr cofrestredig, mae cyfarwyddyd sydd o fewn paragraff (3) ac y mae paragraff (4) yn gymwys iddo i'w drin fel pe bai wedi ei ddirymu.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(3) Mae cyfarwyddyd o fewn y paragraff hwn os yw'n cael ei roi o dan—

(a) adran 19 o Ddeddf 2015;

(b) adran 33 o Ddeddf 2015.

(4) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gyfarwyddyd a roddir—

(a) pan na fo corff llywodraethu'r sefydliad wedi hysbysu'r Comisiwn yn ysgrifenedig ei fod yn derbyn y cyfarwyddyd a phan na fo'r cyfnod ar gyfer gwneud cais am adolygiad o dan reoliad 8 (y weithdrefn i wneud cais am adolygiad o hysbysiadau a chyfarwyddydau) o Reoliadau 2015 wedi dod i ben, neu

(b) pan fo corff llywodraethu'r sefydliad wedi gwneud cais i'r panel adolygu o dan reoliad 8 o Reoliadau 2015 ac—

(i) pan na fo'r adolygiad wedi gorffen, neu

(ii) pan fo'r adolygiad wedi gorffen ond pan na fo'r Comisiwn wedi hysbysu'r corff llywodraethu yn ysgrifenedig fod y cyfarwyddyd yn cael effaith.

(5) Ym mharagraff (4)(a), ystyr hysbysu'r Comisiwn yn ysgrifenedig yw hysbysu o dan reoliad 4(a) (trin hysbysiadau a chyfarwyddydau) o Reoliadau 2015.

**Hysbysiadau o dan Ddeddf 2015 nad ydynt mewn grym**

**15.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i hysbysiad a roddir gan y Comisiwn i sefydliad rheoleiddiedig sy'n dod yn ddarparwr cofrestredig.

(2) Ar ôl i'r sefydliad rheoleiddiedig ddod yn ddarparwr cofrestredig, mae hysbysiad sydd o fewn paragraff (3) ac y mae paragraff (4) yn gymwys iddo i'w drin fel pe bai wedi ei dynnu'n ôl.

(3) Mae hysbysiad o fewn y paragraff hwn os yw'n cael ei roi o dan—

(a) adran 37(1) o Ddeddf 2015 mewn cysylltiad â'r amod yn adran 37(3)(d) neu (e) o'r Ddeddf honno, neu

(b) adran 39(1) o Ddeddf 2015 mewn cysylltiad â'r amod yn adran 39(2)(c) neu (d) o'r Ddeddf honno.

(4) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i hysbysiad a roddir—

(a) pan na fo corff llywodraethu'r sefydliad wedi hysbysu'r Comisiwn yn ysgrifenedig ei fod yn derbyn yr hysbysiad a phan na fo'r cyfnod ar gyfer gwneud cais am adolygiad o dan reoliad 8 o Reoliadau 2015 wedi dod i ben, neu

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) pan fo corff llywodraethu'r sefydliad wedi gwneud cais i'r panel adolygu o dan reoliad 8 o Reoliadau 2015 ac—

(i) pan na fo'r adolygiad wedi gorffen, neu

(ii) pan fo'r adolygiad wedi gorffen ond pan na fo'r Comisiwn wedi hysbysu'r corff llywodraethu yn ysgrifenedig fod yr hysbysiad yn cael effaith.

(5) Ym mharagraff (4)(a), ystyr hysbysu'r Comisiwn yn ysgrifenedig yw hysbysu o dan reoliad 4(a) o Reoliadau 2015.

**Hysbysiadau penodol o dan Ddeddf 2015 sydd mewn grym**

**16.**—(1) Nid yw dim yn y Rhan hon yn effeithio ar gymhwysiad hysbysiad sydd—

(a) o fewn paragraff (2), a

(b) mewn effaith mewn perthynas â sefydliad yn union cyn i'r sefydliad hwnnw ddod yn ddarparwr cofrestredig.

(2) Mae hysbysiad o fewn y paragraff hwn os yw'n cael ei roi o dan—

(a) adran 37(1) o Ddeddf 2015 mewn cysylltiad â'r amod yn adran 37(3)(d) neu (e) o'r Ddeddf honno;

(b) adran 39(1) o Ddeddf 2015 mewn cysylltiad â'r amod yn adran 39(2)(c) neu (d) o'r Ddeddf honno.

(3) Mae hysbysiad mewn effaith—

(a) os yw corff llywodraethu'r sefydliad y mae'r hysbysiad wedi ei gyfeirio ato wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig o dan reoliad 4(a) o Reoliadau 2015 ei fod yn derbyn yr hysbysiad,

(b) os na all y corff hwnnw wneud cais am adolygiad o dan reoliad 8 o Reoliadau 2015 oherwydd bod y cyfnod ar gyfer gwneud cais i'r panel adolygu wedi dod i ben, neu

(c) os yw'r corff hwnnw wedi cael hysbysiad o dan reoliad 10(2) (y weithdrefn ar ôl adolygu) o Reoliadau 2015 fod yr hysbysiad yn cael effaith ar ôl i adolygiad mewn cysylltiad â'r hysbysiad orffen.

(4) Ym mharagraff (1), nid yw hysbysiad a roddir o dan adran 37 o Ddeddf 2015 mewn effaith—

(a) os yw'r cyfnod a bennir yn yr hysbysiad wedi dod i ben, neu

(b) os yw'r hysbysiad wedi cael ei dynnu'n ôl o dan adran 37(6) o Ddeddf 2015.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Cyfarwyddydau o dan Ddeddf 2015 sydd mewn grym**

**17.**—(1) Nid yw cyfarwyddyd sydd o fewn paragraff (2) ac mewn effaith yn gymwys ar ôl i'r sefydliad rheoleiddiedig y rhoddwyd y cyfarwyddyd iddo ddod yn ddarparwr cofrestredig.

(2) Mae cyfarwyddyd o fewn y paragraff hwn os yw'n cael ei roi o dan unrhyw un o'r adrannau a ganlyn o Ddeddf 2015—

(a) adran 19;

(b) adran 21(3) (asesu ansawdd etc: dyletswydd i gydweithredu);

(c) adran 33;

(d) adran 35(2) (rheolaeth ariannol: dyletswydd i gydweithredu).

(3) Mae cyfarwyddyd sydd o fewn paragraff 2(a) neu (c) mewn effaith—

(a) os yw'r canlynol yn wir—

(i) bod corff llywodraethu'r sefydliad y mae'r cyfarwyddyd wedi ei gyfeirio ato wedi hysbysu'r Comisiwn yn ysgrifenedig o dan reoliad 4(a) o Reoliadau 2015 ei fod yn derbyn y cyfarwyddyd,

(ii) na all corff llywodraethu'r sefydliad y mae'r cyfarwyddyd wedi ei gyfeirio ato wneud cais am adolygiad o dan reoliad 8 o Reoliadau 2015 oherwydd bod y cyfnod ar gyfer gwneud cais i'r panel adolygu wedi dod i ben, neu

(iii) bod corff llywodraethu'r sefydliad y mae'r cyfarwyddyd wedi ei gyfeirio ato wedi cael ei hysbysu yn ysgrifenedig gan y Comisiwn fod y cyfarwyddyd yn cael effaith ar ôl i adolygiad mewn cysylltiad â'r cyfarwyddyd hwnnw orffen,

(b) os nad yw'r Comisiwn wedi dirymu'r cyfarwyddyd o dan adran 46(b) (cyfarwyddydau: cyffredinol) o Ddeddf 2015, ac

(c) i'r graddau nad yw'r Comisiwn wedi rhoi hysbysiad o dan adran 45(3) (cyfarwyddydau: cydymffurfio a gorfodi) o Ddeddf 2015 i gorff llywodraethu'r sefydliad y mae'r cyfarwyddyd wedi ei gyfeirio ato yn datgan bod y Comisiwn wedi ei fodloni bod y corff—

(i) wedi cydymffurfio â'r cyfarwyddyd, neu

(ii) wedi cydymffurfio â gofyniad penodol yn y cyfarwyddyd.

(4) Ym mharagraff (1), mae cyfarwyddyd yn cynnwys cyfarwyddyd sydd wedi ei amrywio o dan adran 46(b) o Ddeddf 2015.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Datganiad mewn cysylltiad â swyddogaethau ymyrryd o dan Ddeddf 2015**

**18.**—(1) I’r graddau y mae’n ymwneud â’r darpariaethau yn Neddf 2015 a restrir ym mharagraff (2), nid yw datganiad a gyhoeddir o dan adran 52 o’r Ddeddf honno yn gymwys mewn perthynas â sefydliad rheoleiddiedig ar ôl iddo ddod yn ddarparwr cofrestredig.

(2) Y darpariaethau yn Neddf 2015 yw—

(a) adran 19;

(b) adran 20(1) a (2);

(c) adran 33;

(d) adran 34;

(e) adran 37(3)(d) ac (e);

(f) adran 39(2)(c) a (d).

*Vikki Howells*
Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch,
o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg,
un o Weinidogion Cymru
2 Ebrill 2025